



EMBARGOED PRESS RELEASE: Strictly embargoed for 00:01 GMT on Wednesday 23rd February 2022

MEDIA CONTACT: press.office@zsl.org | communications@naturalresources.wales

INTERVIEWS: Available on request with:

- Joanna Barker – Zoological Society of London (ZSL) – Location: Bridgend – English language
- Ben Wray – Natural Resources Wales (NRW) – Location: Bangor – English language
- Nia Jones – North Wales Wildlife Trust (NWWT) – Location: Bangor – Welsh language

High-res video and images are available to download [here](#)

Scroll down for Welsh version



Communities invited to help better understand rare shark species in Wales

Project SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) offers communities the chance to get involved in safeguarding some of the rarest marine species in Wales such as angelshark, tope, common stingray and spurdog.

People of all ages can dive into marine conservation and learn about the extraordinary sharks, skates and rays living in Welsh coastal waters, in a new project which gives diverse local communities the chance to be part of a 'green recovery' in Wales.

Launched today (23 February 2022) by the Zoological Society London (ZSL) and Natural Resources Wales (NRW), Project SIARC is enlisting the help of fishers, schoolchildren, researchers and citizen scientists from across Wales to better understand some of the more unusual coastal species, such as the angelshark (*Squatina squatina*) and common stingray (*Dasyatis pastinaca*), listed as Critically Endangered and Vulnerable on the IUCN Red List of Threatened Species respectively.

The project has received a £390,000 grant from the Welsh Government's Nature Networks Fund which was delivered by the National Lottery Heritage Fund, as well as a £180,997 National Lottery grant from National Lottery Heritage Fund and £40,000 grant from On the Edge.

The Welsh coast is home to a range of marine life, including 26 species of sharks, skates and rays - a group known as elasmobranchs. Elasmobranchs are an important part of Wales' natural heritage, with significant conservation and cultural importance. Despite this, little is known about their biology and ecology.

Although community engagement and research will be focused at two Special Areas of Conservation (SAC): 'Pen Llŷn a'r Sarnau' and 'Carmarthen Bay and Estuaries', Project SIARC offers a wide range of free in-person and online opportunities, from learning how to identify elasmobranch eggcases, to helping detect sharks in underwater video footage, and scouring archives for historical information. In addition, Project SIARC will identify opportunities and break down barriers to ensure a wider range of people from diverse backgrounds are able to access and get involved in marine conservation.

This engagement will be complemented by research led by Project SIARC scientists in the SACs, which includes taking water samples to detect elasmobranch DNA, deploying underwater cameras to assess what elasmobranchs and habitats are present, and working closely with fishers to gather information on the focal species.

Joanna Barker, Project SIARC Senior Project Manager, ZSL said: "We are delighted to launch Project SIARC with our partner organisations to showcase the incredible elasmobranchs found in Wales. Project SIARC combines biological and social sciences to address critical data gaps for elasmobranchs in Wales whilst generating a new appreciation for the underwater marine environment.

"Currently, few people in Wales can witness these amazing species first-hand, but we hope that the Project SIARC citizen science opportunities, school engagement programme and outreach will bring the underwater world to your doorstep and enable a wider range of people to be involved in marine conservation in Wales."

Several organisations are helping to deliver Project SIARC, including Bangor University, Blue Abacus, North Wales Wildlife Trust, Swansea University and The Shark Trust. It is also supported by an additional nine organisations that sit on the Project SIARC Steering Group.

Project SIARC is an expansion of Angel Shark Project: Wales, which was set up in 2018. Data gathered as part of Angel Shark Project: Wales evidenced the importance of the Welsh coast for angelsharks and was used to develop the Wales Angelshark Action Plan.

Jake Davies, Project SIARC Coordinator, NRW said: "Project SIARC grew from people's input and enthusiasm for Angel Shark Project: Wales. Communities started sharing exciting information about all sorts of sharks, skates and rays, which provided new insights on the ecology of these little-studied species. That meant we could develop Project SIARC – their input was incredible. For Project SIARC, we will use similar techniques to better understand how angelshark, common stingray, spurdog and tope use Welsh waters and how they interact with habitats protected by two of Wales' largest SACs."

School children are also encouraged to get involved. Project SIARC will scale up the success of online "meet the scientist" sessions from Angel Shark Project: Wales, to reach thirty schools across Wales. The project will also work with ten schools around Carmarthen Bay to try their hand at 3D printing shark models, which will be used to educate the next generation about elasmobranchs.

Mr Griffiths, Headteacher at Ysgol Gynradd Nantgaredig said: "We are very excited to get involved in Project SIARC, it will be extremely valuable for our year five class to learn about sharks, skates and rays living off our local beaches. We are particularly keen about the prospect of introducing industrial digital technologies, such as 3D printing, as a tool to reinforce teaching on sustainability, biodiversity and art. It will enable the children

to really connect with the environment around them and understand how much we all rely on the natural world.”

Ben Wray, NRW Project SIARC Manager & Marine Ecologist added: “Co-led by ZSL and NRW, Project SIARC is part of a wider integrated approach in Wales driven by the Well-being of Future Generations and Environment Acts. This recognises that resilient ecosystems are fundamental to the well-being of people in Wales. By re-connecting people with nature, we can support improvements in mental health and well-being as well as encourage better stewardship of our seas and reverse the decline in biodiversity. It also highlights the interconnections of global environmental issues, such as the climate and nature emergencies.”

Anyone currently living or residing in Wales can get involved with Project SIARC by visiting www.projectsarc.com or following the work on [Facebook](#), [Instagram](#) or [Twitter](#).

-ENDS-

Editors' Notes

High-res images and video available [here](#)

Media contacts

ZSL (Zoological Society London) Press Office

Charlotte.raynsford@zsl.org

Press.office@zsl.org

NRW Communications office

llinos.merriman@naturalresourceswales.gov.uk

communications@naturalresourceswales.gov.uk

029 2046 4227 (24hrs)

Project SIARC:

Project SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) is a collaborative project led by ZSL (Zoological Society of London) and Natural Resources Wales (NRW), with the support of Nature Networks Fund, National Lottery Heritage Fund and On the Edge.

The marine environment in Wales is teeming with life; beneath the often-murky waters are little understood species of shark, skate and ray (elasmobranchs) of conservation importance. Project SIARC is catalysing links between fishers, researchers, communities and government to collaborate and safeguard elasmobranchs and support a green recovery in Wales. We have four main objectives:

- Critical data gaps in the ecology of elasmobranchs are addressed to inform management of two Special Areas of Conservation (SACs)
- Opportunities for involvement in marine conservation in Wales are diversified
- A new appreciation of the underwater environment in Wales is generated
- The next generation are inspired to connect with marine conservation through learning

Project SIARC Steering Group

The Project SIARC Steering Group includes the following organisations: Bangor University, North Wales Wildlife Trust, Shark Trust, Swansea University, Blue Abacus, Cetacean Standings Investigation Programme (“CSIP”), National Waterfront Museum, On the Edge, People’s Collection Wales, Welsh Government, Welsh

Federation of Sea Anglers, Welsh Fisherman's Association, Universidad de Las Palmas de Gran Canaria and Zoological Research Museum Alexander Koenig

Lead Partners:

ZSL (Zoological Society of London)

Founded in 1826, ZSL (Zoological Society of London) is an international scientific, conservation and educational charity whose mission is to promote and achieve the worldwide conservation of animals and their habitats. Our mission is realised through our ground-breaking science, our active conservation projects in more than 50 countries and our two Zoos, ZSL London Zoo and ZSL Whipsnade Zoo.

ZSL is urging global governments to put nature at the heart of policy-decision making, prioritise biodiversity loss and recognise its interconnections with other environmental issues such as climate change. You can support ZSL global science and conservation work by donating at www.zsl.org

Natural Resources Wales

Natural Resources Wales is a Welsh Government Sponsored Body. Its purpose is to ensure that the natural resources of Wales are sustainably maintained, enhanced and used, now and in the future.

For more information, see our website: www.naturalresources.wales

Delivery Partners:

Bangor University

Bangor University is a research-led University providing transformative learning experiences and nurturing a positive impact on society regionally, nationally and internationally. Bangor University's key strategy is to support growth in transformative research focused on halting irreversible environmental change and creating resilient ecosystems, fostering global health outcomes and promoting economic, social, multilingual and cultural vibrancy. Researchers at Bangor University's School of Ocean Sciences are conducting hydrodynamic modelling to help design and interpret results from environmental DNA (eDNA) surveys.

North Wales Wildlife Trust

North Wales Wildlife Trust (NWWT) is a registered charity and limited company. Their vision is a North Wales rich in wildlife valued by all, and their mission is to improve places for wildlife and connect people with wildlife. NWWT recognise that they are uniquely positioned to strengthen the relationship between local people and the natural environment of North Wales, and promote the value of the natural environment to local people. NWWT are leading some of the Project SIARC citizen science initiatives, including organising archival research groups and Shark Trust's Great Eggcase Hunt across Wales.

Shark Trust

Shark Trust is a UK-based charity dedicated to safeguarding the future of sharks, skates, rays and chimaera through positive change. The Trust achieves this through science, education, influence, and action. The Shark Trust are developing dual-language elasmobranch and eggcase ID guides for Wales, to support fisher engagement and citizen science research. They are also supporting NWWT in the delivery of Great Eggcase Hunt events across Wales.

Swansea University

Swansea University is a charitable body with its primary charitable purpose being the advancement of education through teaching and research. The Institute for Innovative Materials, Processing and Numerical Technologies (IMPACT) is a state-of-the-art engineering research institute specialising in fundamental and applied research and innovation in advanced engineering, modelling and materials. The operation has been part-funded by the European Regional Development Fund through the Welsh Government and Swansea University.

As a Centre of Excellence, IMPACT supports the regional, the UK and global engineering economy with collaborative, fundamental and applied research. The Engineering North building, home to IMPACT, is based at Swansea University Bay Campus and forms part of the Faculty of Science & Engineering – offering a unique

colocation facility for academia-industry partnerships within a transformative research environment. www.swansea.ac.uk/engineering/impact/

IMPACT at Swansea University are leading school engagement for Project SIARC, including an exciting expansion of 3D printing in schools to bring our focal species to classrooms around Wales.

Blue Abacus

Blue Abacus is a company that manufactures Baited Remote Underwater Videos Systems (“BRUVS”) and conducts image analysis of footage captured by said BRUVS to provide quantitative data related to the number, size and species of marine animals in a surveyed area so as to empower decision makers with the information necessary to make evidence-based decisions related to the stewardship of the marine environment. Blue Abacus is developing Baited Remote Underwater Video (BRUV) equipment for Project SIARC and will lead analysis of BRUVs footage from PLAS.

Funders:

On the Edge

We believe a sustainable future for all life on Earth is possible — but only if we transform the way we treat nature, fast. At On the Edge, we’re committed to reconnecting the public with the value and importance of biodiversity — as well as bringing about lasting, large-scale change to protect species and ecosystems across the world. Our Goal is to inspire curiosity, respect, ambition and action for the natural world. www.ontheedge.org

National Lottery Heritage Fund

Using money raised by the National Lottery, we Inspire, lead and resource the UK’s heritage to create positive and lasting change for people and communities, now and in the future. <https://www.heritagefund.org.uk/in-your-area/wales>

Thanks to National Lottery players, more than £30 million goes to good causes across the UK every week.

Follow @HeritageFundCYM on Twitter, Facebook and Instagram and use #NationalLotteryHeritageFund.

Nature Networks Fund

This fund aimed to strengthen the resilience of Wales’ network of protected land and marine sites, supporting a green recovery for nature and communities.

It was delivered by the National Lottery Heritage Fund in partnership with the Welsh Government.

Project SIARC & Angel Shark Project: Wales

Project SIARC is an expansion of Angel Shark Project: Wales (ASP:W) which was set up in 2018. Since then, it has worked with fishers and local communities to gather over 2,000 angelshark records, alongside carrying out research to better understand the ecology of the species in Wales. The first underwater footage of an angelshark was captured in September last year by Project SIARC Coordinator Jake Davies. The angelshark is listed as Critically Endangered on the IUCN Red List of Threatened Species, but data gathered as part of Angel Shark Project: Wales has provided further evidence that highlights the importance of the Welsh coast for the species. Angel Shark Project: Wales will continue under the umbrella of Project SIARC to deliver the angelshark elements of the project.

Use of Images and Video

Photographs, video or graphics distributed by ZSL (Zoological Society of London) to support this media release were taken by Jake Davies and should be credited “Jake Davies | JDScuba | Project SIARC”. They may only be used for editorial reporting purposes for the contemporaneous illustration of events, things or the persons in the image or facts mentioned in the media release or image caption. Reuse of the picture or video requires further permission from JDScuba.

General Data Protection Regulation (GDPR)

You are currently on the Zoological Society London (ZSL) databases as a press contact. We class press contacts as the journalists, press officers and those working within science communications who have helped ensure the ZSL can continue its mission to ensure the public have access to the best scientific evidence and expertise through the news media when science hits the headlines. Due to the new [General Data Protection Regulation \(GDPR\)](#), we are letting you know that we hold and process your data under legitimate interest. At any time you can object to the holding or processing of your data, and we will remove you from our database. More information on what we hold, why we keep it and what we use it for is available in our [privacy statement](#). If you have any further questions, please [get in touch](#).




DATGANIAD I'R WASG O DAN EMBARGO: Embargo tan 00:01 GMT dydd Mercher 23 Chwefror 2022

CYSWLLT Â'R WASG: press.office@zsl.org | communications@naturalresources.wales

CYFWELIADAU: Ar gael ar alw gyda:

- Joanna Barker – Zoological Society of London (ZSL) – Lleoliad: Pen-y-bont ar Ogwr – Saesneg
- Ben Wray – Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) – Lleoliad: Bangor – Saesneg
- Nia Jones – North Wales Wildlife Trust (NWWT) – Lleoliad: Bangor – Cymraeg

Fideo a delweddau o ansawdd uchel ar gael i'w lawrlwytho [yma](#)



Cymunedau'n cael eu gwahodd i ddeall rhywogaethau prin o siarcod yn well yng Nghymru

Mae Prosiect SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) yn rhoi cyfle i gymunedau gymryd rhan mewn diogelu rhai o rywogaethau morol mwyaf prin Cymru fel y maelgi, morgath ddu gyffredin, morgi glas a morgi.

Gall pobl o bob oed blymio i mewn i gadwraeth forol a dysgu am y siarcod, morgathod a'r morgathod du rhyfeddol sy'n byw yn nyfroedd arfordirol Cymru, mewn prosiect newydd sy'n rhoi cyfle i gymunedau lleol amrywiol fod yn rhan o 'adferiad gwyrdd' yng Nghymru.

Wedi'i lansio heddiw (23 Chwefror 2022) gan Zoological Society London (ZSL) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC), mae Prosiect SIARC yn ceisio cymorth pysgotwyr, plant ysgol, ymchwilwyr a gwyddonwyr sy'n ddinasyddion o bob rhan o Gymru i ddeall rhai o'r rhywogaethau arfordirol mwy anarferol yn well, megis y maelgi (*Squatina squatina*) a'r forgath ddu gyffredin (*Dasyatis pastinaca*), sydd wedi'u rhestru fel Mewn Perygl Difrifol a Bregus ar Restr Goch yr IUCN o Rywogaethau Dan Fygythiad yn y drefn honno.

Mae'r prosiect wedi derbyn grant o £390,000 gan Gronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru a ddarparwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn ogystal â grant y Loteri Genedlaethol o £180,997 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a grant o £40,000 gan On the Edge.

Mae arfordir Cymru yn gartref i amrywiaeth o fywyd morol, gan gynnwys 26 rhywogaeth o siarcod, morgathod a morgathod du - grŵp a elwir yn elasmobranciaid. Mae elasmobranciaid yn rhan bwysig o dreftadaeth naturiol Cymru, o bwysigrwydd cadwraeth a diwylliannol sylweddol. Er gwaethaf hyn, ychydig sy'n hysbys am eu bioleg a'u hecoleg.

Er y bydd gwaith ymchwil ac ymgysylltu cymunedol yn canolbwyntio ar ddwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA): 'Pen Llŷn a'r Sarnau' a 'Bae ac Aberoedd Caerfyrddin', mae Prosiect SIARC yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd wyneb yn wyneb ac ar-lein rhad ac am ddim, o ddysgu sut i adnabod plisgyn wy elasmobranciaid, helpu i ganfod siarcod mewn fideos tanddwr, a chwilio archifau am wybodaeth hanesyddol. Hefyd, bydd Prosiect SIARC yn nodi cyfleoedd ac yn chwalu rhwystrau i sicrhau bod amrywiaeth ehangach o bobl o gefndiroedd amrywiol yn gallu cyrchu a chymryd rhan mewn cadwraeth forol.

Bydd yr ymgysylltu hwn yn cael ei ategu gan ymchwil a arweinir gan wyddonwyr Prosiect SIARC yn yr ACA, sy'n cynnwys cymryd samplau dŵr i ganfod DNA elasmobranciaid, gosod camerâu tanddwr i asesu pa elasmobranciaid a chynefinoedd sy'n bresennol, a gweithio'n agos gyda physgotwyr i gasglu gwybodaeth am y rhywogaethau ffocal.

Dywedodd Joanna Barker, Uwch Reolwr Prosiect SIARC, ZSL: "Rydym ni'n falch iawn o lansio Prosiect SIARC gyda'n sefydliadau partner i arddangos yr elasmobranciaid anhygoel a geir yng Nghymru. Mae Prosiect SIARC yn cyfuno'r gwyddorau biolegol a chymdeithasol i fynd i'r afael â bylchau data hanfodol ar gyfer elasmobranciaid yng Nghymru tra'n creu gwerthfawrogiad newydd o'r amgylchedd morol tanddwr.

"Ar hyn o bryd, ychydig o bobl yng Nghymru sy'n gallu gweld y rhywogaethau anhygoel hyn yn uniongyrchol, ond rydym ni'n gobeithio y bydd cyfleoedd gwyddoniaeth dinasyddion, y rhaglen ymgysylltu ag ysgolion ac allgymorth Prosiect SIARC yn dod â'r byd tanddwr at garreg eich drws ac yn galluogi amrywiaeth ehangach o bobl i gymryd rhan mewn cadwraeth forol yng Nghymru."

Mae sawl sefydliad yn helpu i gyflwyno Prosiect SIARC, gan gynnwys Prifysgol Bangor, Blue Abacus, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Prifysgol Abertawe a The Shark Trust. Fe'i cefnogir hefyd gan naw sefydliad ychwanegol sy'n eistedd ar Grŵp Llywio Prosiect SIARC.

Mae Prosiect SIARC yn ehangiad o Brosiect Maelgi: Cymru, a sefydlwyd yn 2018. Roedd data a gasglwyd fel rhan o Brosiect Maelgi: Cymru yn dangos pa mor bwysig yw arfordir Cymru i faelgwn ac fe'i defnyddiwyd i ddatblygu Cynllun Gweithredu Maelgwn Cymru.

Dywedodd Jake Davies, Cydlynnydd Prosiect SIARC, CNC: "Tyfodd Prosiect SIARC o fewnbwn a brwdfrydedd pobl dros Brosiect Maelgi: Cymru. Dechreuodd cymunedau rannu gwybodaeth gyffrous am bob math o siarcod, morgathod a morgathod du, a roddodd fewnwelediad newydd i ecoleg y rhywogaethau hyn nad ydynt wedi cael eu hastudio lawer. Roedd hynny'n golygu y gallem ni ddatblygu Prosiect SIARC – roedd eu mewnbwn yn anhygoel. Ar gyfer Prosiect SIARC, byddwn ni'n defnyddio technegau tebyg i ddeall sut mae'r maelgi, morgath ddu gyffredin, morgi a morgi glas yn defnyddio dyfroedd Cymru yn well a sut maen nhw'n rhyngweithio â chynefinoedd sy'n cael eu gwarchod gan ddwy o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig mwyaf Cymru."

Mae plant ysgol hefyd yn cael eu hannog i gymryd rhan. Bydd Prosiect SIARC yn cynyddu llwyddiant sesiynau "cwrdd â'r gwyddonydd" ar-lein Prosiect Maelgi: Cymru, i gyrraedd 30 o ysgolion ledled Cymru. Bydd y prosiect hefyd yn gweithio gyda 10 ysgol o amgylch Bae Caerfyrddin i roi cynnig ar argraffu modelau siarc 3D, a fydd yn cael eu defnyddio i addysgu'r genhedlaeth nesaf am elasmobranciaid.

Dyweddodd Mr Griffiths, Pennaeth Ysgol Gynradd Nantgaredig: “Rydym ni’n gyffrous iawn i fod yn rhan o Brosiect SIARC, bydd yn hynod werthfawr i’n dosbarth blwyddyn 5 i ddysgu am siarcod, morgathod a morgathod du sy’n byw oddi ar ein traethau lleol. Rydym ni’n arbennig o awyddus ynglŷn â’r posibilrwydd o gyflwyno technolegau digidol diwydiannol, fel argraffu 3D, fel adnodd i atgyfnerthu addysgu cynaliadwyedd, bioamrywiaeth a chelf.

Bydd yn galluogi’r plant i wir gysylltu â’r amgylchedd o’u cwmpas a deall faint rydym ni i gyd yn dibynnu ar y byd naturiol.”

Ychwanegodd Ben Wray, Rheolwr Prosiect SIARC CNC ac Ecolegydd Morol: “Mae Prosiect SIARC, sy’n cael ei arwain ar y cyd gan ZSL a CNC, yn rhan o ddull integredig ehangach yng Nghymru sy’n cael ei ysgogi gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Mae hyn yn cydnabod bod ecosystemau gwydn yn sylfaenol i lesiant pobl Cymru. Drwy ailgysylltu pobl â byd natur, gallwn gefnogi gwelliannau mewn iechyd meddwl a llesiant yn ogystal ag annog gwell stiwardiaeth o’n moroedd a gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae hefyd yn tynnu sylw at y rhyng-gysylltiadau rhwng materion amgylcheddol byd-eang, fel yr argyfyngau hinsawdd a natur.”

Gall unrhyw un sy’n byw neu’n preswyllo yng Nghymru ar hyn o bryd fod yn rhan o Brosiect SIARC drwy fynd i www.prosiectsiarc.com neu ddilyn y gwaith ar [Facebook](#), [Instagram](#) neu [Twitter](#).

-DIWEDD-

Nodiadau i Olygyddion

Fideo a delweddau o ansawdd uchel ar gael i’w lawrlwytho yma

Cysylltiadau’r Wasg

Swyddfa’r Wasg ZSL (Zoological Society London)

Charlotte.raynsford@zsl.org

Press.office@zsl.org

Swyddfa Gyfathrebu CNC

llos.merriman@naturalresourceswales.gov.uk

communications@naturalresourceswales.gov.uk

029 2046 4227 (24 awr)

Project SIARC:

Mae Project SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) yn brosiect cydweithredol a arweinir gan ZSL (Zoological Society of London) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chefnogaeth Cronfa Rhwydweithiau Natur, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac On the Edge.

Mae amgylchedd morol Cymru yn gyforiog o fywyd; o dan y dyfroedd sy’n aml yn dywyll, mae rhywogaethau o siarcod, morgathod a morgathod du (elasmobranciaid) o bwysigrwydd cadwraeth nad oes llawer yn hysbys amdanynt. Mae Prosiect SIARC yn sbarduno cysylltiadau rhwng pysgotwyr, ymchwilwyr, cymunedau a’r llywodraeth i gydweithio a diogelu elasmobranciaid a chefnogi adferiad gwyrdd yng Nghymru. Mae gennym ni bedwar prif amcan:

- Bod sylw’n cael ei roi i fylchau data critigol yn ecoleg elasmobranciaid er mwyn llywio rheolaeth dwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).
- Bod cyfleoedd i ymwneud â chadwraeth forol yng Nghymru yn amrywio

- Bod gwerthfawrogiad newydd o'r amgylchedd tanddwr yng Nghymru yn cael ei greu
- Bod y genhedlaeth nesaf yn cael ei hysbrydoli i gysylltu â chadwraeth forol trwy ddysgu

Grŵp Llywio Prosiect SIARC

Mae Grŵp Llywio Prosiect SIARC yn cynnwys y sefydliadau canlynol: Prifysgol Bangor, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Shark Trust, Prifysgol Abertawe, Blue Abacus, Cetacean Standings Investigation Programme ("CSIP"), Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, On the Edge, Casgliad y Werin Cymru, Llywodraeth Cymru, Ffederasiwn Pysgotwyr Môr Cymru, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, Universidad de Las Palmas de Gran Canaria a Zoological Research Museum Alexander Koenig

Partneriaid Arweiniol:

ZSL (Zoological Society of London)

Wedi'i sefydlu ym 1826, mae ZSL (Zoological Society of London) yn elusen wyddonol, cadwraeth ac addysgol ryngwladol a'i chenhadaeth yw hyrwyddo a chyflawni cadwraeth byd-eang anifeiliaid a'u cynefinoedd. Gwiredir ein cenhadaeth trwy ein gwyddoniaeth arloesol, ein prosiectau cadwraeth gweithredol mewn mwy na 50 o wledydd a'n dwy Sw, ZSL London Zoo and ZSL Whipsnade Zoo.

Mae ZSL yn annog llywodraethau byd-eang i roi natur wrth galon gwneud penderfyniadau polisi, blaenoriaethu colli bioamrywiaeth a chydabod ei rhyng-gysylltiadau â materion amgylcheddol eraill megis newid hinsawdd. Gallwch gefnogi gwaith gwyddoniaeth a chadwraeth byd-eang ZSL trwy gyfrannu yn www.zsl.org

Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ei ddiben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein gwefan: www.cyfoethnaturiol.cymru

Partneriaid Cyflenwi:

Prifysgol Bangor

Mae Prifysgol Bangor yn brifysgol a arweinir gan ymchwil sy'n darparu profiadau dysgu trawsnewidiol ac yn meithrin effaith gadarnhaol ar gymdeithas yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Strategaeth allweddol Prifysgol Bangor yw cefnogi twf mewn ymchwil drawsnewidiol sy'n canolbwyntio ar atal newid amgylcheddol anwrthdroadwy a chreu ecosystemau gwydn, meithrin canlyniadau iechyd byd-eang a hybu bywiogrwydd economaidd, cymdeithasol, amlieithog a diwylliannol. Mae ymchwilwyr yn Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor yn cynnal modelu hydrodynamig i helpu dylunio a dehongli canlyniadau arolygon DNA amgylcheddol (eDNA).

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (NWWT) yn elusen gofrestrdedig ac yn gwmni cyfyngedig. Eu gweledigaeth yw gogledd Cymru sy'n gyfoethog mewn bywyd gwylt a werthfawrogr gan bawb, a'u cenhadaeth yw gwella lleoedd ar gyfer bywyd gwylt a chysylltu pobl â bywyd gwylt. Mae NWWT yn cydnabod eu bod mewn sefyllfa unigryw i gryfhau'r berthynas rhwng pobl leol ac amgylchedd naturiol gogledd Cymru, a hyrwyddo gwerth yr amgylchedd naturiol i bobl leol. Mae NWWT yn arwain rhai o fentrau gwyddoniaeth dinasyddion Prosiect SIARC, gan gynnwys trefnu grwpiau ymchwil archifol a Helfa Plisgyn Wy Fawr y Shark Trust ledled Cymru.

Shark Trust

Mae Shark Trust yn elusen yn y DU sy'n ymroddedig i ddiogelu dyfodol siarcod, morgathod, morgathod du a chimerâu trwy newid cadarnhaol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni hyn trwy wyddoniaeth, addysg, dylanwad a gweithredu. Mae Shark Trust yn datblygu canllawiau adnabod elasmobranciaid a phlisgyn wy dwyieithog ar gyfer Cymru, i helpu ymgysylltiad pysgotwyr ac ymchwil gwyddoniaeth dinasyddion. Maen nhw hefyd yn cefnogi NWWT i gynnal digwyddiadau Helfa Fawr Plisgyn Wy ledled Cymru.

Prifysgol Abertawe

Mae Prifysgol Abertawe yn gorff elusennol a'i phrif ddiben elusennol yw hyrwyddo addysg trwy addysgu ac ymchwil. Mae'r Sefydliad Technolegau Deunyddiau, Prosesu a Rhifiadol Arloesol (IMPACT) yn sefydliad ymchwil peirianeg o'r radd flaenaf sy'n arbenigo mewn ymchwil ac arloesi sylfaenol a chymhwysol mewn peirianeg uwch, modelu a deunyddiau. Mae'r ymgyrch wedi'i hariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru a Phrifysgol Abertawe.

Fel Canolfan Ragoriaeth, mae IMPACT yn cefnogi economi peirianeg ranbarthol, y DU a byd-eang gydag ymchwil gydweithredol, sylfaenol a chymhwysol. Mae adeilad Engineering North, sy'n gartref i IMPACT, wedi'i leoli ar Gampws y Bae Prifysgol Abertawe ac mae'n rhan o'r Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianeg – sy'n cynnig cyfleuster cydweithredol unigryw ar gyfer partneriaethau academia-diwydiant o fewn amgylchedd ymchwil trawsnewidiol. www.swansea.ac.uk/engineering/impact/

Mae IMPACT ym Mhrifysgol Abertawe yn arwain ar ymgysylltu ag ysgolion ar gyfer Prosiect SIARC, gan gynnwys ehangiad cyffrous o argraffu 3D mewn ysgolion i ddod â'n rhywogaethau ffocal i ystafelloedd dosbarth ledled Cymru.

Blue Abacus

Mae Blue Abacus yn gwmni sy'n cynhyrchu Systemau Fideos Tanddwr o Bell ag Abwyd/*Baited Remote Underwater Videos Systems* ("BRUVS") ac yn cynnal dadansoddiad delwedd o ffilm sy'n cael ei recordio gan BRUVS i ddarparu data meintiol yn ymwneud â nifer, maint a rhywogaethau anifeiliaid morol mewn ardal a arolygir er mwyn grymuso y rhai sy'n gwneud penderfyniadau sydd â'r wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth sy'n ymwneud â stiwardiaeth yr amgylchedd morol. Mae Blue Abacus yn datblygu offer BRUV ar gyfer Prosiect SIARC a bydd yn arwain dadansoddiad o ffilm BRUVs o PLAS.

Arianwyr:

On The Edge

Credwn fod dyfodol cynaliadwy i holl fywyd y Ddaear yn bosibl - ond dim ond os byddwn yn trawsnewid y ffordd rydym ni'n trin natur, yn gyflym. Yn On the Edge, rydym ni wedi ymrwymo i ailgysylltu'r cyhoedd â gwerth a phwysigrwydd bioamrywiaeth — yn ogystal â sicrhau newid parhaol, ar raddfa fawr i warchod rhywogaethau ac ecosystemau ar draws y byd. Ein nod yw ysbrydoli chwilyfrydedd, parch, uchelgais a gweithredu ar gyfer byd natur. www.ontheedge.org

Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Gan ddefnyddio arian a godwyd gan y Loteri Genedlaethol, rydym ni'n ysbrydoli, arwain a darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth y DU i greu newid cadarnhaol a parhaol i bobl a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol. <https://www.heritagefund.org.uk/in-your-area/wales>

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae dros £30 miliwn yn mynd at achosion da ledled y DU bob wythnos.

Dilynwch @HeritageFundCYM ar Twitter, Facebook ac Instagram a defnyddiwch #CronfaDreftadaethLoteriGenedlaethol.

Cronfa Rhwydweithiau Natur

Nod y gronfa hon oedd cryfhau gwydnwch rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchoddedig, gan gefnogi adferiad gwyrdd i natur a chymunedau.

Fe'i darparwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Prosiect SIARC a Prosiect Maelgi: Cymru

Mae Prosiect SIARC yn ehangu ar Brosiect Maelgi: Cymru (ASP:W) a sefydlwyd yn 2018. Ers hynny, mae wedi gweithio gyda physgotwyr a chymunedau lleol i gasglu dros 2,000 o gofnodion o faelgwn, ochr yn ochr â chynnal ymchwil i ddeall ecoleg y rhywogaethau yng Nghymru yn well. Cafodd y ffilm danddwr gyntaf o faelgi

ei ffilmio ym mis Medi y llynedd gan Gydllynydd Prosiect SIARC Jake Davies. Mae'r maelgi wedi'i restru Mewn Perygl Difrifol ar Restr Goch yr IUCN o Rywogaethau Dan Fygythiad, ond mae data a gasglwyd fel rhan o Brosiect Maelgi: Cymru wedi darparu tystiolaeth bellach sy'n amlygu pwysigrwydd arfordir Cymru i'r rywogaeth. Bydd Prosiect Maelgi: Cymru yn parhau o dan ymbarél Prosiect SIARC i gyflawni elfennau'r prosiect sy'n ymwneud â maelgwn.

Defnyddio Delweddau a Fideo

Tynnwyd ffotograffau, fideo neu graffeg a ddsbarthwyd gan ZSL (Zoological Society of London) i gefnogi'r datganiad hwn i'r cyfryngau gan Jake Davies a dylid rhoi'r gydnabyddiaeth "Jake Davies | JDScauba | Prosiect SIARC" iddynt. Ni chaniateir eu defnyddio ond at ddibenion gohebu golygyddol ar gyfer darlunio digwyddiadau, pethau neu'r bobl yn y ddelwedd neu'r ffeithiau a grybwyllir yn y datganiad i'r cyfryngau neu bennawd y ddelwedd ar yr un pryd. Mae angen caniatâd pellach gan JDScauba i aildefnyddio'r llun neu'r fideo.

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Rydych chi ar hyn o bryd ar gronfeydd data Zoological Society of London (ZSL) fel cyswllt â'r wasg. Rydym ni'n ystyried cysylltiadau â'r wasg fel y newyddiadurwyr, swyddogion y wasg a'r rhai sy'n gweithio ym maes cyfathrebu gwyddoniaeth sydd wedi helpu i sicrhau y gall ZSL barhau â'i genhadaeth i wneud yn siŵr bod gan y cyhoedd fynediad at y dystiolaeth wyddonol a'r arbenigedd gorau trwy'r cyfryngau newyddion pan fydd gwyddoniaeth yn cyrraedd y penawdau. Oherwydd y [Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol](#) (GDPR) newydd, rydym ni'n rhoi gwybod i chi ein bod yn cadw ac yn prosesu eich data o dan ddiddordeb cyfreithlon. Gallwch wrthwynebu cadw neu brosesu eich data unrhyw bryd, a byddwn yn eich tynnu oddi ar ein cronfa ddata. Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd gennym ni, pam rydym ni'n ei gadw ac ar gyfer beth rydym ni'n ei ddefnyddio ar gael yn ein [datganiad preifatrwydd](#). Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau eraill, [cysylltwch â ni](#).